CYFRES A5

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Gwersi Beiblaidd o'r Testament Newydd

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Actau 2: 1-43

ADNOD ALLWEDDOL
Actau 1: 8

Gwers 1 Bywyd Pedr – Pedr yn Pregethu

Roedd yr Arglwydd Iesu wedi mynd yn ôl i'r Nefoedd o Fynydd yr Olewydd, i fod gyda'i Dad. Roedd Pedr, a'r disgyblion eraill oedd hefyd yn cael eu galw'n apostolion, wedi cael gwaith newydd i'w wneud gan yr Arglwydd Iesu. Mae'n bosibl bod Pedr yn teimlo'n wan ac yn ofnus. Sut oedd e'n mynd i wneud y gwaith newydd hwn?

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n dangos yr addewid a wnaeth yr Arglwydd Iesu i'w ddisgyblion y bydden nhw'n cael nerth.**

2

C **Rhowch y pedwar gair yn y bylchau iawn yn y paragraff nesa.**

gwynt **Ysbryd** **Pentecost** **dân**

Roedd yr apostolion gyda'i gilydd ar ddydd y _ _ _ _ _ _ _ _ _.Yn sydyn, fe ddaeth sŵn fel _ _ _ _ _ yn rhuthro, a thafodau o _ _ _ yn ymddangos iddyn nhw.Yr _ _ _ _ _ _ oedd hwn, ac yn awr roedden nhw'n ddynion gwahanol, yn barod ar gyfer y gwaith yr oedd yr Arglwydd Iesu wedi ei roi iddyn nhw.

4

C **Rhowch gylch am y geiriau i ddangos beth a ddigwyddodd pan ddaeth yr Ysbryd Glân.**

Safodd Pedr i fyny gyda'r	deg	un ar ddeg	deuddeg
Roedd y dyrfa yn	Rhufain	Jericho	Jerwsalem
Roedd hi'n dal yn	fore	brynhawn	nos
Fe ddyfynnodd Pedr o'r proffwyd	Jona	Eseia	Joel

4

Fel y cawn weld, doedd dim ofn ar Pedr bellach, ond fe ddywedodd yn eofn wrth y gwrandawyr fod Duw wadi codi yr Iesu yr oedden nhw wedi ei groeshoelio, o farw, a'i wneud yn Arglwydd ac yn Grist.

C **Llanwch y geiriau coll i orffen y frawddeg.**



Yn adnod 37, pan glywodd y bobl y neges, cawson nhw'u pigo'n ddwys yn eu _ _ _ _ _ ac medden nhw wrth Pedr a'r apostolion eraill, "_ _ __ _ _ _ _ _ _ _ , gyfeillion?"

2

Pos Geiriau

C **Ysgrifennwch yr atebion i'r cliwiau isod, a rhowch gylch amdanyn nhw yn y Pos Geiriau. Maen nhw wedi eu hysgrifennu i bob cyfeiriad.**

A	R	W	Y	DD	I	O	N
TH	D	Y	R	B	S	Y	A
R	E	D	I	F	A		S
E	R	H	E	W	CH		A
N	DD	O	RH	D			R
B	E	D	Y	DD	Î	O	E
U	A	D	O	CH	E	P	TH

1. Fe dderbyniwch _ _ _ __ . (1: 8)
2. Llanwodd y gwynt yr holl _ _ .(2: 2)
3. Dywedodd Duw y byddai'n arllwys ei _ _ _ _ _ _. (2:17)
4. Iesu o N_ _ _ _ _ __. (2: 22)
5. Rhaid i'r rhain gael eu maddau, _ _ __ _ _ _ _ _ .(2:38)
6. Mae'r Ysbryd Glân yn cael ei roi yn _____. (2: 38)

8

C **Ysgrifennwch y llythrennau sydd ar ôl i weld beth a bregethodd Pedr.**

Roedd yn dweud "_ _ _ _ _ _ _ _ __" ac y dylai pawb ohonynt gael eu _ _ _ _ __ _ _ (2: 38)

Roedd Pedr wedi cwrdd â'r Arglwydd Iesu ar ôl iddo atgyfodi, ac roedd wedi cael maddeuant. Nawr, roedd wedi derbyn yr Ysbryd Glân a roddodd y nerth iddo ddweud wrth y tyrfaoedd ei bod yn rhaid iddyn nhw hefyd edifarhau, derbyn maddeuant a'r Ysbryd Glân yn rhodd.

Mae edifarhau yn golygu troi o'n ffyrdd pechadurus ni, a dewis ffordd Duw ar ein cyfer.

Roedd Pedr yn ymbil ar y bobl i droi, a newid eu meddwl am yr Arglwydd Iesu.

Ydych chi wedi edifarhau a chredu ynddo fe?

Roedd tasg Pedr o ledaenu'r newyddion da bod yr Arglwydd Iesu wedi atgyfodi wedi dechrau. Ers y diwrnod hwnnw, mae'r neges honno'n dal i gael ei phregethu ac mae miliynau wedi edifarhau ac wedi ymddiried yn yr Arglwydd Iesu.

Enw _____

DARLLENWCH
Acts 3: 1-16

ADNOD ALLWEDDOL
Acts 3: 6

Gwers 2 Bywyd Pedr – Pedr yn iacháu

Weithiau, rydyn ni'n teimlo'n drist ac yn poeni wrth glywed newyddion a gweld lluniau o bobl yn llwgu yn Affrica a rhannau eraill o'r byd, lle mae newyn a thrychinebau eraill.



Mae'n siwr bod Pedr ac Ioan yn teimlo'r un fath pan welson nhw ddyn cloff yn eistedd wrth borth y Deml pan oedden nhw'n mynd i weddïo. Fe ofynnodd y dyn iddyn nhw am arian, ond roedd Pedr ac Ioan yn medru rhoi rhywbeth llawer gwell iddo, oherwydd y gallu arbennig yr oedden nhw wedi'i gael gan yr Arglwydd Iesu.

C **Dyma restr o luniau o'r darlleniad o'r Beibl. Edrychwch ar yr adnodau sy'n disgrifio pob llun, ac yna gorffennwch y brawddegau yn eich geiriau eich hun.**

Roedd y dyn _____
Bob dydd _____
_____
_____

2

Gwelodd y dyn _____
A gofynnodd am _____
Meddai Pedr: "Does gen i ddim _____
_____

2

Gafaelodd Pedr _____
Cryfhaodd _____
_____
_____

2

Roedd y dyn yn _____
_____
_____
_____

2

Gwelodd yr holl bobl _____
Yr oeddent yn _____
_____
_____

2

Mae'n hawdd deall pam nad oedd y dyn y barod i ollwng gafael ar Pedr ac Ioan. Fe gasglodd tyrfa fawr yng Nghloestr Solomon ac fe drodd Pedr i siarad â nhw.

C **Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir:** Roedden nhw wedi synnu o weld y dyn cloff. Roedd wedi bod am flynyddoedd yn erfyn am gardod wrth THBRO THPFDRYER Y LDME

__ __ __ ___ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ __ ond roedd yn awr yn iach.

2

C **Ysgrifennwch lythyren gyntaf y pethau yn y lluniau i gael enw'r Un a roddodd y gallu i Pedr ac Ioan i wella'r dyn.**

___ ___ ___ ___ ___ ___ ___ ___ ___

2

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

3

Ydych chi'n gwybod bod ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist yn gallu gwneud gwahaniaeth i chi hefyd? Efallai nad ydych chi'n gloff, ond rydyn ni i gyd wedi pechu, a dim ond trwy ffydd yn enw nerthol Iesu Grist y gallwn gael maddeuant.

Mae Pedr yn disgrifio'r Arglwydd Iesu mewn tair ffordd wahanol yn adnodau 14 a 15.

C **Yn y porth, ysgrifennwch y tri disgrifiad a roddodd Pedr iddo. .**



3

Yr un Arglwydd Iesu sy'n gallu newid ein bywydau ninnau hefyd os ydyn ni'n barod i ymddiried ynddo.

Enw _____

DARLLENWCH
Actau 4: 1-22

ADNOD ALLWEDDOL
Actau 4: 12

Gwers 3 Bywyd Pedr – Tystiolaeth Pedr

Pregethodd Pedr i'r dyrfa oedd wedi casglu i weld y dyn cloff oedd wedi cael ei wella. Eglurodd fod y wyrth wedi digwydd trwy nerth yr Arglwydd Iesu oedd wedi atgyfodi. Dywedodd wrthyn nhw fod Duw wedi atgyfodi ei Fab, yr Arglwydd Iesu, fel y medrai pob un ohonyn nhw droi o'u ffyrdd drygionus at Dduw. Pan oedd Pedr ac Ioan yn dal i siarad, fe gawson nhw eu harestio.

C **Pwy oedd y bobl oedd yn genfigennus ac yn wyllt am fod y dyrfa yn gwrando ar Pedr ac Ioan?** 3

1. Yr DIORIFFEAI (Aildrefnwch) _____

2. Prif swyddog y _____

3. Y DWSIECAAD (Aildrefnwch) _____

C **Darllenwch adnod 2 i weld am beth roedd yr apostolion y pregethu ac ysgrifennu'r ateb isod.** 1

_____

Doedd y Sadwceaid ddim yn credu y byddai pobl yn atgyfodi. Ond mae'r Beibl yn ein dysgu bod pawb sy'n marw yn cael ei atgyfodi. Bydd pawb sy'n trystio'r Arglwydd Iesu yn mynd i'r Nefoedd. Nid marw ydi'r diwedd iddyn nhw!

C **Gorffennwch y dariun (drwy dynnu llun bariau) i ddangos lle cafodd Pedr ac Ioan eu cadw tan drannoeth.** 2

C **Ysgrifennwch enw'r lle yn y blwch.** 1

_____



C **Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i ddangos beth wnaeth llawer o'r bobl:** U C E D R

Roedd mwy o bobl yn credu bob dydd. Roedd Duw yn adeiladu ei Eglwys. Iesu Grist yw'r 'garreg sylfaen' ac mae pawb sy'n credu ynddo fel 'carreg fyw' wedi'i adeiladu arno Ef. (1 Pedr 2: 5)

Drannoeth, daeth rhai o arweinwyr pwysig yr Iddewon at ei gilydd yn Jerwsalem.

C **Enwch ddau ohonyn nhw.** 2

_____ _____

C **Rhowch y llythrennau yn y drefn iawn:**

2

Maen nhw'n gofyn i Pedr ac Ioan, "Trwy ba (THNRE) __ __ __ __ __ neu drwy ba (WEN) __ __ __ y gwnaethoch chi hyn?"

Fe roddodd Duw, yr Ysbryd Glân, ddewrder a nerth i Pedr fel y gallai ateb arweinwyr yr Iddewon yn onest.

C **Rhowch eich atebion i'r cwestiynau ar y cerrig cywir isod:-**

1. Pam roedd Pedr ac Ioan yn cael eu holi? (adn. 9)
2. Drwy ba Enw nerthol y cafodd y dyn cloff ei iacháu? (adn. 10)
3. Beth oedd pobl Israel wedi'i wneud i'r Arglwydd Iesu? (adn. 10)
4. Ond beth wnaeth Duw? (adn. 10)
5. Ym mha ffordd mae'r Arglwydd Iesu yn cael ei ddisgrifio yn adnod 11?
6. Beth gafodd Pedr ac Ioan eu rhybuddio i beidio â'i wneud gan yr arweinwyr Iddewig? (adn. 17)
7. Pam roedd Pedr ac Ioan yn gwrthod addo peidio â sôn am yr Arglwydd Iesu? (adn. 19,20)
8. Dywedodd Pedr mai dim ond trwy'r Arglwydd Iesu y gallwn ni gael ein hachub.

Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.



7

2

Rhaid i'r Arglwydd Iesu fod yn sylfaen i'n ffydd ni.

Mae'r rhai sy'n dilyn Iesu yn dod yn rhan o adeilad Duw. Dylen nhw, fel Pedr, fod yn barod i ddweud wrth eraill amdano, beth bynnag mae hynny'n ei gostio iddyn nhw!

Enw _____

DARLLENWCH
Actau 12: 1-19

ADNOD ALLWEDDOL
1 Ioan 5: 14

Gwers 4 Bywyd Pedr – Pedr yn y Carchar

Roedd mwy a mwy o bobl yn dod yn ddilynwyr Iesu Grist. Roedden nhw'n rhannu eu bwyd a'u harian ac yn cwrdd â'i gilydd yn aml i weddïo ac i foli Duw. Roedden nhw'n dweud y newyddion da am Iesu Grist wrth bawb. Roedd yr offeiriaid a'r rheolwyr yn Jerwsalem yn benderfynol o rwystro'r neges, felly bu'n rhaid i lawer o Gristnogion adael, ac fe gafodd eraill eu cosbi mewn gwahanol ffyrdd. Mae hyn yn cael ei alw'n 'Erledigaeth'.

C **Darllenwch adnodau 1-4 eto ac ysgrifennwch wrth ochr bob llun yn eich geiriau eich hun, beth a ddigwyddodd.**





4

C **Rhowch y llythrennau yn y drefn gywir i gael yr atebion.**
Roedd ar Herod eisiau plesio'r WNEDDOI __ __ __ __ __ __'
Roedd Herod yn ADRBUWI __ __ __ __ __ __ __ rhoi Pedr ar brawf yn gyhoeddus.

2

Ar yr union noson pan oedd Herod yn cynllunio i roi Pedr ar ei brawf, sylwch beth sy'n digwydd.

C **Tynnwch linellau syth i gysylltu'r brawddegau cywir.**

Roedd yr eglwys	wedi eu clymu wrth Pedr.
Roedd dau filwr	yn cysgu'n drwm.
Roedd Pedr	yn gweddïo'n daer ar Dduw dros Pedr.

3

C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.

1

Croesair



Darllenwch y cliwiau isod er mwyn gwneud y Croesair.

Ar draws

4. Roedd Pedr wedi cael ei ryddhau o'r lle hwn.
5. Pan welodd y bobl yn y tŷ mai Pedr oedd yno, roedden nhw wedi'u _ _ _ _ _ _ _ _. (adn. 16)
7. Dywedodd Pedr mai hwn oedd wedi dod ag ef allan o'r carchar.



I Lawr

1. Pwy aeth i ateb y drws?
2. Fe wnaeth y forwyn adnabod __ _ _ _ Pedr.
3. Tŷ pwy oedd hwn?
4. Roedd Pedr yn dal i wneud hyn ar y drws.
6. Roedd y bobl yn meddwl mai _ __ _ _ Pedr oedd yno.

10

Fe adawodd yr Arglwydd i Iago gael ei ladd. Roedd yn caru Iago gymaint ag yr oedd yn caru Pedr. Fedrwn ni byth ddeall pam mae Duw yn gwella rhai pobl o afiechyd drwg, tra mae eraill yn marw neu'n cael eu lladd mewn damwain. Mae'r Beibl yn ein dysgu bod Duw yn ein caru ni ac yn gwybod beth sydd orau.

Felly, gallwn ni ymddiried yn Nuw bob amser. Y peth pwysig yw credu ynddo, a gweddïo bob amser, gan dderbyn ei ewyllys ef ar gyfer ein bywydau.

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120